Grug Morus (2004265)
Film & TV BA (Hons)
L4 Ways of Thinking (ADAD4018) – Reflective Writing
Robert Jones

Dadansoddiad ac ymchwiliad i 'Gofeb Tryweryn' gan John Meirion Morris

1505 o eiriau

Hyd yn oed ar ôl pum deg mlynedd, mae boddi'r Capel Celyn dal i sefyll fel un o boena fwyaf Cymru dan reolaeth y llywodraeth Brydeinig (Adamson, 1991). Mae'r genhedlaeth oedd yno i weld y digwyddiad a'r cenhedloedd ddaeth wedyn yn unedig ar y ffaith na ddylai fod yn rhywbeth oedd wedi gallu digwydd yn gyfreithiol, ac mae actifyddion yn ei ddefnyddio fel symbolaeth o ormes Gymreig (Bowen, 2020). Fel person sydd wedi tyfu fyny o amgylch balchder am fy achau Gymraeg, rwyf eisoes wedi gwybod am y stori tu ôl i Lyn Tryweryn, a theimlaf nad oes un rhywbeth sydd yn cynrychioli'r digwyddiad fel y cerflun Cofeb Tryweryn gan John Meirion Morris, fy nhaid. Mae gwaith gwleidyddol taid wedi ennill parch cyd-artistiaid a ddarlithwyr ledled y byd, am y rheswm ddywedai Aled Jones-Williams (Hafan John Meirion Morris, n.d.):

> *Mae'r cerfluniau yn cwestiynu ac yn turio i mewn i'n rhagdybiau – gweithiau nad ydynt yn gadael llonydd i ni ac yn tanseilio'r ystrydebol a'r confensiynol. Y maent yn bwysig i'n hunanddealltwriaeth fel cenedl.*

Yn y traethawd hwn, byddaf yn archwilio mewn i pam mae'r cerflun yma wedi gadael gymaint o argraff arnaf a sut mae'n bwysig i mi nawr, yn ogystal â gweddill y gymuned Gymraeg.

Mae delwedd wladgarol dragwyddol y cerflun Tryweryn wastad wedi sefyll allan yn fy meddwl, hyd yn oed yn fy mhlentyndod, pan nad oedd gennai lawer o wybod am y byd a'i wleidyddiaeth. Ni chefais ei weld llawer, gyda'r cerflun yn cael ei chadw yn stiwdio Taid, ond ar yr adegau byr pan welais, roedd o hyd yn fy nhynnu ato. Roedd hi'n sefyll allan o'r cerfluniau eraill oedd wedi'u gosod o amgylch yr ystafell, gan gynnwys y lwmp o glai yn y gornel a fuasai'n esblygu mewn i'r athrylith nesaf. I mi, roedd hi'n aderyn hardd a oedd y gwŷdd uwch fy mhen ar ei phedestal, gwddf yr aderyn yn mynd fyny i'r nefoedd am byth, er mewn gwirionedd, oedd hi ond tua wyth ar hugain modfedd o uchder. Mae'r cof o gyffwrdd gwddf yr aderyn yn dod i feddwl hefyd, y metel oer yn i wneud hi'n braf ei fwytho. Ym mol yr aderyn, roedd y côr o wynebau fel swyngwsg, eu llygaid mawr yn gwneud i mi gwestiynu os oedden nhw wir yn canu, neu'n bloeddio am eu rhyddid o'r cerflun. Brin o amser fuaswn yn ei wario'n syllu ar y côr, gan goelio fy mod am gael fy sugno mewn i'r cerflun gan wneud hynny, yn gaeth wrth y wynebau eraill i gyd. Yn edrych yn ôl ar y cof yma, toeddwn erioed wedi deall fel plentyn, pwysigrwydd y cerflun yma i'r diwylliant Gymraeg, a'r nifer o bobl cafodd effaith arnynt. Roedd wir fel ddywedodd taid amdano, "fod y ddelwedd bellach nid yn unig yn un ac iddi naws ysbrydol gref, ond bod iddi arwyddocâd gwleidyddol a chymdeithasol" (Hafan John Meirion Morris, n.d.).

Syndod yw edrych yn ôl ar y cof personol hwn nawr gyda'r wybodaeth o'i hanes, a theimlo llawer o beth teimlaf fel plentyn. Roedd taid gwastad yn berson gyda gwybod am wleidyddiaeth ac ni oedd yn ofn cael ei farn allan i'r cyhoedd, rhywbeth roeddwn yn sylwi mwy a fwy am ei waith wrth dyfu fyny. Mae wedi dweud sawl waith bod celfyddyd ar ei ore yn ateb ein gofidiau, ac ein anghenion, a'n delfrydau (George, 2000), ac all un weld hyn yn glir iawn yn ei waith, mae gan pob un pwrpas a neges i'w gwblhau. I gymharu, mae gen y cerflun edrychiad haniaethol iddo, gyda'r wynebau yn atgoffa un o'r paentiad 'The Scream' gan Edvard Munch, eu hwynebau hunllefus i gyd yn unfath ond ar yr un pryd yn unigryw o'i gilydd. Bydd pob ymennydd dynol yn edrych am wyneb mewn unrhywbeth, gan ei fod yn rhywbeth gyfarwydd, felly mae wynebau warped yn achosi teimlad

seicolegol o anghyfforddusrwydd, yn enwedig mewn plant (Lopatina et al., 2018). Mae hanner waelod manwl y darn celf yn cyferbynnu'r hanner uchaf syml a blaen, a fyddai wedi tynnu sylw fy llygaid ifanc, a hyd yn oed heddiw, mae'n cael yr un effaith. Wrth i'r wynebau agosáu at wddf yr aderyn, gall weld sut maent yn cychwyn ystof mewn i adenydd yr aderyn. All hyn gynrychioli sut all gynddaredd newid mewn i heddwch, gyda chamau yn cael i wneud i geisio atal yr un peth ddigwydd. Mae hefyd yn arddangos sut nad yw'r wynebau yn cael eu gweld yn syth, fel sut buasai berson yn gallu edrych ar Lyn Tryweryn heb wybod yr hanes tu ôl iddo, yr egni gan bobl i'w arbed.

Gall fabwysiadu werthfawrogiad gwell o'r cerflun gan wybod ei hanes a chymhelliad taid i'w greu. Mae'r wleidyddiaeth tu ôl i foddi Capel Celyn yn gynrychiolaeth o, beth mae rhai wedi'i ddisgrifio fel, rheolaeth ormesol mae llywodraeth Lloegr eisoes wedi cael dros wledydd y Deyrnas Unedig (Evans, 1959). Mae themâu'r darn hwn yn gysylltiedig i raddau helaeth â brwydr Cymru i aberthu'r diwylliant a'r iaith, a oedd yn gryf yn yr ardaloedd hyn a chafodd ei ddinistrio (Atkins, 2018). Mae'n cynrychioli lleisiau'r Cymry a chaf eu distewi gan or-reolaeth y Ddeddf Seneddol, a oedd yn golygu y gallai Capel Celyn ei foddi er fudd dinas nad oedd yng Nghymru. Nid oedd yn rhaid i Gyngor Dinas Lerpwl ofyn am gydsyniad cynllunio gan awdurdodau lleol perthnasol Cymru, a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun (Davies, 1992), gan hefyd osgoi ymchwiliad cynllunio ar lefel Gymreig lle gellid mynegi ddadleuon yn erbyn y cynnig. Caf ymddiheuriad gan Dinas Lerpwl ond pymtheg mlynedd yn ol, ond ddywedai rhai bod yr hyn llawer rhy hwyr i gael unrhyw effaith ganlyniadol ar y mater (Newyddion BBC, 2005). Allwn weld sut mae'r digwyddiad dal i wneud llawer o ddinasyddion Cymru yn angerddol trwy gôr y cerflun, sy'n cynrychioli protestwyr y gorffennol a'r lleisiau cenedlaethol sy'n dal i weiddi 'Cofiwch Dryweryn' (Stephens, 2019). Mae Tryweryn yn cael ei ddefnyddio i gyfleu'r syniad o annibyniaeth gan rai, gan gynnwys arweinydd presennol Plaid Cymru, Liz Saville-Roberts (Williamson, 2015):

> *Cyhyd â bod Cymru yn cael ei hysgwyd i'r sefydliad anghytbwys hwn o dan anfantais ddemocrataidd gyson o amgylch Lloegr, bydd Tryweryn arall yn aros i ddigwydd.*

Mae'n cyfleu cymysgedd anghyson o emosiynau; ofn, dicter a rhwystredigaeth yn wynebau agored y côr ond gobaith ar ffurf yr aderyn esgynnol (George, 2000). Gall gymharu'r aderyn fel symbolaeth o'r dywediad 'fel ffenics yn codi o'r lludw', gan na fyddai digwyddiad fel Tryweryn yn digwydd eto.

Mae modd cymharu effaith cerflun fy nhaid i lawer o ddarnau eraill trwy gydol hanes, gyda'r ddefydd o themâu goresgynnol y sefydliad Prydeinig. Dangosai artistiaid Cymreig ormes y wlad trwy lawer o gyfryngau celf, gyda chasgliad cerddi Gerallt Lloyd Owen, 'Cerddi'r Cywilydd', yn enghraifft o ddarnau eiconig sy'n portreadu teimladau'r Cymry. Mae'r symbolaeth o Llywelyn yn 'Fy Ngwlad', yn crynhoi'r cannoedd o flynyddoedd o Gymru dan reolaeth Prydain fel un o siom, siom bod y genhedlaeth hon yn gallu derbyn math o driniaeth, yn derbyn tywysog Saesneg fel Siarl fel tywysog Cymru (Owen, 2015). Serch y themâu sy'n gydfyd, mae modd dweud bod casgliad Owen yn gyferbyn darn fy nhaid, nid oes fath o obaith yng ngherddi'r bardd, mae'n dwrdio'r diog yn lle canmoli'r dewr sy'n mynd yn erbyn y sefydliad. Mae Owen yn portreadu'r wlad trwy llygaid pesimistaidd i gymharu â obaith optimistaidd taid. Ar y llaw arall, all gwaith Bryn Fôn yn Sobin A'R Smaeliaid gyda'r gan 'Meibion y Fflam' arddangos y gobaith y mae Cofeb Tryweryn yn ei harddangos. Mae angerdd Fôn am gredoau dadleuol y grŵp Meibion Glyndŵr yn glir yn ei waith, gyda geiriau'r gan yn achosi iddo gael ei arestio a'i gadw yn safle heddlu Dolgellau am wyth ar ddeugain awr (Cynwal, 2009). Er na chafodd Fôn unrhyw fath o ddedfryd o hyn, mae'r gefnogaeth a gafodd trwy'r achos yn arddangos meddylia llawer o amgylch y wlad, ac er bod y Meibion yn enghraifft eithafol o brotest, mae'n cynrychioli lleisiau'r wlad fel y mae'r Gofeb.

Ar y cyfan, mae Cofeb Tryweryn yn symbolaeth o ddyfodol Cymru gyda llais unedig, ac mae'n gysur gwybod bod fy mhrofiad personol gyda'r darn yn un unigryw iawn, ac wedi cael llawer

mwy o effaith ar fy ngwleidyddiaeth ac ar fy edrychiad ar y byd nag oedd i'w feddwl. Gyda cholled taid yn ddiweddar, mae gafael ar yr atgofion hyn ar ei bwysicaf, ac mae gobaith fy mod yn mynd i allu cario ei enw a'i neges i'r byd ymlaen trwy fy ngwaith. Dysgais trwy ei genedlaetholdeb anfaddeuol i fynd ymlaen i greu celfyddyd sy'n arddangos fy malchder o fod yn Gymraes, hyd yn oed os mae'n frawychus i gael barn mor gryf yn gyhoeddus. Mae gobaith y bydd y gofeb yn gallu cae ei ehangu i wyth ar hugain troedfedd a'i osod yn Llyn Tryweryn fel gwir goffa o'r digwyddiadau yno hanner canrif yn ôl (Tudur, 2020), ac er bod y gobaith hwn wedi lledaenu dros ugain mlynedd, rwyf gyda ffydd y bydd lleisiau yn gallu dod at ei gilydd i wneud yr hyn y gwirionedd, fel mae'r cerflun yn erfyn.

Llyfryddiaeth

1. Adamson, D. (1991). *Class ideology and the nation: A theory of Welsh nationalism*. Caerdydd: University of Wales Press.
2. Atkins, E., 2018. Building a Dam, Constructing a Nation: The 'drowning' of Capel Celyn. *Journal of Historical Sociology*, 31(4), pp.455-468.
3. Bowen, E., 2020. *"Cofiwch Dryweryn": A Welsh History Of Oppression - Cherwell*. [online] Cherwell. Available at: <https://cherwell.org/2020/07/19/cofiwch-dryweryn-a-welsh-history-of-oppression/> [Accessed 15 December 2020].
4. Cynwal, H., 2009. *S4C - Cofio, Cyfres 1, Bryn Fon*. [online] Bbc.co.uk. Available at: <https://www.bbc.co.uk/programmes/p04pxz1m> [Accessed 16 December 2020].
5. Davies, J., 1992. *Hanes Cymru*. London: Penguin Books, p.640.
6. Evans, G. 1959. *We learn from Tryweryn*. Caerdydd: Plaid Cymru
7. George, B., 2000. *BBC Radio Cymru - Beti A'i Phobol, John Meirion Morris*. [online] Bbc.co.uk. Available at: <https://www.bbc.co.uk/programmes/m000pgw3> [Accessed 18 December 2020].
8. Johnmeirionmorris.org. n.d. *Hafan John Meirion Morris*. [online] Available at: <http://www.johnmeirionmorris.org/cymraeg/> [Accessed 31 December 2020].
9. L, L., 2018. Neurobiological Aspects of Face Recognition: The Role of Oxytocin. *Frontiers in Behavioral Neuroscience*, [online] 12, p.195. Available at: <https://www.frontiersin.org/article/10.3389/fnbeh.2018.00195> [Accessed 16 December 2020].
10. News.bbc.co.uk. 2005. *BBC NEWS | Wales | Official Apology Over Tryweryn*. [online] Available at: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/4354256.stm> [Accessed 31 December 2020].
11. Owen, F., 2015. Ymateb y beirdd i argyfwng y Gymraeg yng nghymunedau gwledig Cymrurhwng 1991 a 2014. [online] p.124. Available at: <https://pure.aber.ac.uk/portal/files/28174695/Owen_Ffion_Eluned_MPhil.pdf> [Accessed 12 December 2020].
12. Stephens, A., 2019. *Gwleidyddiaeth Cofio*. [online] Pedwargwynt.cymru. Available at: <https://pedwargwynt.cymru/dadansoddi/gol/pum-peth-ar-fy-meddwl> [Accessed 14 December 2020].
13. Tudur, N., 2020. *Cofio'R Artist "Cyfriniol" John Meirion Morris*. [online] Golwg360. Available at: <https://golwg.360.cymru/cylchgrawn/2014268-cofio-artist-cyfriniol-john-meirion-morris> [Accessed 26 November 2020].
14. Williamson, D. (2015)."Unless the law is changed another Tryweryn flooding is possible"Claims that Wales still lacks control of its resources. Wales Online. Available at: http://www.walesonline.co.uk/news/politics/unless-law-changed-another-tryweryn-10261571 [Accessed 29 November 2020]